Un Pwynt Mynediad Gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig

“Cyswllt Cyntaf, Ymateb Iawn"

Cydweithio â Chi!

Fel rhan o’r Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad, efallai y byddwch angen gwasanaethau gan nifer o wahanol sefydliadau, e.e. iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, mudiadau gwirfoddol, ac ati. Os felly, efallai y bydd angen rhannu rhywfaint o wybodaeth amdanoch chi fel bod pawb sy'n ymwneud â’ch gofal yn gallu gweithio gyda'i gilydd er eich budd chi.

Bydd gwybodaeth amdanoch ond yn cael ei defnyddio neu ei throsglwyddo i eraill sy'n ymwneud â'ch gofal, os byddant ei hangen.

Pryd bynnag y defnyddir eich gwybodaeth ar gyfer eich gofal, bydd yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Bydd sefydliadau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad:

- ddim fel arfer yn datgelu eich gwybodaeth bersonol heb eich caniatâd, oni bai ei fod er eich lles chi neu'n ofynnol yn ôl y gyfraith;
- yn sicrhau mai dim ond y lleiafswm o wybodaeth sydd ei hangen fydd yn cael ei throsglwyddo;
- sicrhau bod unrhyw un sy'n derbyn gwybodaeth amdanoch o dan rwymedigaeth i'w chadw'n gyfrinachol ac i ddefnyddio'r wybodaeth at y diben penodedig;
- sicrhau bod cytundebau rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau yn rheoli'r ffordd y caiff eich gwybodaeth ei rhannu;
- â systemau cadarn ar waith i helpu i atal mynediad heb awdurdod i wybodaeth am gleifion a gedwir ar ei gyfrifiaduron.

Os byddwch yn gofyn i ni beidio â rhannu gwybodaeth amdanoch chi gyda pherson neu sefydliad arall, byddwn yn parchu eich dymuniadau oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol. Efallai y bydd peidio rhannu rhywfaint o wybodaeth yn golygu bod yn rhaid i ni newid y lefel o ofal neu wasanaeth a ddarparwn i chi ond bydd hyn yn cael ei egluro. Bydd y penderfyniad terfynol fel arfer yn dibynnu arnoch chi.

Os oes angen rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, gofynnwch i aelod o staff am daflen.

Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych
64 Ffordd Brighton
Y Rhyl
Sir Ddinbych
LL18 3HN

Ffôn: 0300 4561000